

CABINET
24 EBRILL 2018

Cofnodion cyfarfod Cabinet Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Clwyd, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug ddydd Mawrth, 24 Ebrill 2018.

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd Aaron Shotton (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr: Bernie Attridge, Derek Butler, Christine Jones, Billy Mullin, Ian Roberts a Carolyn Thomas.

HEFYD YN BRESENNOL:

Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Prif Swyddog (Tai ac Asedau), Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Prif Swyddog (Rhaglenni Strategol), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol ac Arweinydd Tîm - Gwasanaethau Democrataidd.

YMDDIHEURIADAU:

Y Cyngorydd Chris Bithell.

AELODAU ERAILL YN BRESENNOL:

Y Cyngorwyr: Patrick Heesom a David Wisinger.

160. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

161. COFNODION

Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2018 wedi eu cylchredeg gyda'r rhaglen a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

162. CYNLLUN Y CYNGOR 2018/19

Cyflwynodd y Cyngorydd Mullin adroddiad o Gynllun y Cyngor 2018/19, a eglurodd fod y Cyngor yn cael ei adolygu a'i adnewyddu i adlewyrchu blaenoriaethau allweddol y Cyngor.

Mae gweithdy i'r holl Aelodau wedi'i drefnu ar gyfer 29 Mai 2018, pan fyddai cynnwys y Cynllun drafft yn cael ei rannu ochr yn ochr â meysydd targed allweddol ar gyfer mesurau cenedlaethol. Roedd gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol y rôl ffurfiol o adolygu'r Cynllun, a fyddai'n cael ei wneud gyda budd y gweithdy Aelodau.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr mai adroddiad ar gynnydd oedd hwn a bod diweddariad llafar wedi'i roi yn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yr wythnos flaenorol. Byddai Cynllun y Cyngor yna'n cael ei gyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor Sir 19 Mehefin i'w fabwysiadu, a fyddai'n bodloni dyddiad cau statudol Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

PENDERFYNWYD:

- (a) Cymeradwyo i barhau â strwythur amlinellol Cynllun y Cyngor 2018/19; a
- (b) Chymeradwyo'r broses o ymgysylltu ag Aelodau yn natblygiad y Cynllun.

163. BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR Y FFLINT: CYNLLUN LLES SIR Y FFLINT 2017/23

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint (BGC): Cynllun Lles Sir y Fflint 2017/23, a roddodd drosolwg o waith y Bwrdd a datblygiad y Cynllun.

Roedd y Cynllun wedi'i ddatblygu ochr yn ochr â Chynllun y Cyngor, gan ddarparu aliniad a chydweddiad cryf â'r blaenoriaethau. Roedd y Cynllun yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir yn hwyrach ymlaen y diwrnod hwnnw er mwyn ei fabwysiadu.

Mae BGC Sir y Fflint yn cynnwys uwch arweinwyr o nifer o sefydliadau cyhoeddus a gwirfoddol. Fe weithiodd pawb yn dda iawn gyda'i gilydd, gan ddangos creadigrwydd, parodrwydd ac atebolrwydd, o fewn fframwaith arweinyddiaeth cryf.

Roedd gweithdy Aelodau diweddar wedi'i gynnal lle cafwyd sylwadau cadarnhaol.

PENDERFYNWYD:

Bod y Cynllun Lles yn cael ei gefnogi fel partner statudol ac fel y partner arweiniol ar gyfer cydlynu'r Cynllun cyn ei fabwysiadu gan y Cyngor Sir.

164. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG – RHAGOLWG 2019/20

Cyflwynodd y Cyngorydd Shotton adroddiad y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig – Rhagolwg 2019/20, a ddarparodd y trosolwg manwl cyntaf o'r rhagolwg ariannol ar gyfer 2019/20.

Eglurodd y Prif Weithredwr fod yr adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yr wythnos flaenorol, lle croesawyd ac y gwerthfawrogwyd rhagolwg cynnar o'r gyllideb ar gyfer 2019/20. Gwnaed sylw ar sut y gallai cynigion effeithio ar grwpiau o bobl, pan edrychwyd ar atebion cyllideb ar gyfer gwasanaethau. Gan fod y broses gyllideb yn dechrau'n fuan, byddai hyn yn galluogi bod unrhyw oblygiadau'n cael eu hystyried. Ychwanegodd fod adnoddau o Gyllid Allanol Cyfun (AEF) a Threth y Cyngor wedi'u dangos ar yr un lefel â 2018/19 ar y cam hwn, ar gyfer dibenion cynllunio cymharol.

Roedd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Cyfansoddiad yn hwyrach ymlaen yr wythnos honno ar broses y gyllideb, a'r opsiynau posibl ar gyfer adrodd.

Tynnodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol sylw at effeithiau ar y rhagolwg o'r gyllideb, a fanylwyd arno'n llawn yn yr adroddiad. Y meysydd oedd: defnyddio cronfeydd wrth gefn a gollwyd; costau gweithlu; gofynion gofal cymdeithasol; costau ysgol; a chorfforaethol/chwyddiant. Arweiniodd hyn at fwlch yn y gyllideb a ragwelwyd o £10.6m.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Attridge y pwysigrwydd o gyfarfodydd brys gydag Aelodau Cynulliad (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) i dynnu sylw at y pwysau a wynebai'r Cyngor. Teimlodd eu bod nhw angen arwain ar gyfer y Cyngor ar y lobiö a fyddai'n ofynnol. Cefnogodd Aelodau sylwadau'r Cynghorydd Attridge, gan ychwanegu, er croesawyd grantiau cyllid cyfalaf, byddai'n haws i Gynghorau gynllunio cyllidebau os oedd arian ar gael ar y cyfle cynharaf. Gwnaed sylw hefyd ar bwysau ychwanegol a osodwyd ar Gynghorau nad oedd yn cael eu hariannu, fel y Mesur Anghenion Ychwanegol, y dylid eu hariannu'n genedlaethol.

Rhoddodd y Prif Weithredwr sylw ar effaith dyfarniad cyflog athrawon nad oedd wedi'i gynnwys yn y rhagolwg, gan mai barn y sector oedd y dylai fod yn bwysau cost a ariennir yn genedlaethol. Ychwanegodd os oedd Llywodraeth Cymru (LIC) yn cefnogi cynnydd bach mewn AEF a'r pwysau gofal cymdeithasol dan arweiniad y farchnad, a phwysau cost dethol eraill, gallai'r Cyngor fod yn ddau draean o'r ffordd i gau bwlch y gyllideb. O ran y gweithlu, dywedodd fod yna wydnwch cyfyngedig mewn sawl maes gwasanaeth. Fodd bynnag, roedd yn falch o gael adrodd fod gan y Cyngor un o'r cyfraddau isaf o lefelau salwch yng Nghymru, a oedd o ganlyniad i ymroddiad staff, i raddau helaeth.

Daeth y Cynghorydd Shotton i'r casgliad y gallai Aelodau gymryd nerth o'r ffaith bod proses y gyllideb yn dechrau'n gynt, a oedd yn rhoi'r cyfle a'r amser i weithio gyda phob Aelod o'r Cyngor.

PENDERFYNWYD:

Bod y rhagolwg a ddiweddarwyd yn cael ei fabwysiadu fel sail i'r cynllunio cychwynnol.

165. STRATEGAETH HYRWYDDO'R GYMRAEG DRAFFT

Cyflwynodd y Cynghorydd Mullin adroddiad Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg Drafft, a gyflwynodd Strategaeth ddrafft o bum mlynedd i Sir y Fflint, i gael cymeradwyaeth cyn ymgynghori'n ehangach.

Nododd y Strategaeth sut y gallai'r Cyngor weithio gydag asiantaethau partner ac eraill yn y gymuned, fel Cynghorau Tref a Chymuned a busnesau.

Eglurodd y Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu fod y Strategaeth wedi'i chyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yr wythnos flaenorol, lle cafodd ei chefnogi a'i chymeradwyo.

Rhoddodd y Prif Weithredwr sylw ar yr eglurhad a geisiwyd yn y cyfarfod hwnnw ar ddata yn nhabl 3 yr atodiad, ac eglurodd y cafwyd yr wybodaeth o ddata'r cyfrifiad. Derbyniwyd y byddai strwythur cwestiynau'r cyfrifiad yn cael eu hadolygu. Ychwanegodd fod Comisiynydd y Gymraeg wedi rhoi sylwadau cadarnhaol ar Strategaeth y Cyngor, gyda'r Chyngor yn cael ei barchu am yr hyn yr oedd wedi'i gyflawni.

Rhoddodd y Cynghorydd Butler sylw fod nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir y Fflint yn uwch na sawl awdurdod arall ar draws Cymru, a oedd yn galonogol. Mewn ymateb i sylw gan y Cynghorydd Thomas, eglurodd y Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol fod staff derbynfa'r Cyngor yn gwisgo bathodyn i ddangos a oeddent yn siarad Cymraeg, ac fe anogwyd pobl i sgwrsio yn Gymraeg.

PENDERFYNWYD:

- (a) Cymeradwyo Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg Drafft ar gyfer ymgynghori arni;
- (b) Y byddai'r broses ymgynghori a'r amserlen yn cael ei chymeradwyo; a
- (c) Bod fersiwn terfynol y cynllun yn cael ei argymhell i'w fabwysiadu yng Ngorffennaf 2018.

166. ASTUDIAETH Ffordd Fynediad Sir y Fflint Swydd Gaer

Cyflwynodd y Cynghorydd Thomas adroddiad Astudiaeth Ffordd Fynediad Sir y Fflint/Swydd Gaer a dynnodd sylw at nifer o gynlluniau ffordd a rheilffyrdd a nodwyd ym mhrosbectws "Datgloi ein gwir botensial" Cynghrair Mersi a Dyfrdwy (MDA). Cawsant eu hystyried yn hanfodol i ddatgloi datblygiad y dyfodol a hybu twf yn ardal MDA.

Yn dilyn sgwrs â Llywodraeth Cymru (LIC), Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer (CWAC), a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (CBSW), roedd wedi dangos bod diddordeb mawr mewn ehangu'r dadansoddiad cychwynnol o gynllun posibl yn y dyfodol i ystyried yr opsiynau, y goblygiadau a'r buddion tymor hwy ar y cyd, o aliniad diwygiedig.

Credwyd y gallai llwybr amgen ddarparu mwy o gyfleoedd i wella cysylltedd ar ddwy ochr y ffin, a galluogi mynediad gwell i safleoedd datblygu newydd ac sy'n dod i'r amlwg. Roedd y rhain yn cynnwys Penarlâg, Brychdyn a'r parc manwerthu presennol, Warren Hall, yn ogystal â safleoedd posibl y gellir eu hystyried y tu hwnt i orwelion cynllunio cyfredol. Gallai'r aliniad posibl hefyd helpu i leihau tagfeydd ar gylchffordd fewnol Caer yng nghyffordd y Posthouse A55/A483.

Fel yr Aelodau lleol sy'n cynrychioli'r ddwy ward ym Mrychdyn, croesawodd y Cynghorwyr Butler a Mullin yr adroddiad, y gwnaethant deimlo a oedd wedi bod yn ofynnol ers nifer o flynyddoedd.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Shotton, eglurodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chefn Gwlad) fod Cyngor Sir y Fflint yn gyfrannwr cyfartal

at yr astudiaeth ac y byddai unrhyw opsiynau llwybr terfynol yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Cabinet.

PENDERFYNWYD:

- (a) Cymeradwyo'r comisiwn ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru, Cyngorau Bwrdeistref Swydd Gaer a Chaer a Warrington, i ymgysylltu â phartner arbenigol i wneud argymhellion ar y dull llwybr a ffeirir, ar gyfer cynllun priffordd traws-ffiniol newydd posibl; a
- (b) Bod adroddiad pellach yn manylu ynghylch canlyniad yr astudiaeth unwaith y cwblheir y gwaith, yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet.

Cadeiriodd y Cyngorydd Attridge y cyfarfod o'r pwynt hwn ymlaen

167. MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2017/18 (MIS 11)

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw 2017/18 (Mis 11), a oedd yn nodi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran monitro'r gyllideb refeniw yn 2017/18 ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r sefyllfa, yn seiliedig ar incwm a gwariant gwirioneddol, ac yn rhagamcanu beth fyddai sefyllfa'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol pe bai popeth yn aros yn gyfartal. Byddai'r adroddiad nesaf ar sefyllfa ariannol y Cyngor i'r Cabinet 17 Gorffennaf, a dyma'r sefyllfa alldro derfynol yn dilyn cau cyfrifon 2017/18.

Y sefyllfa a ragamcanwyd ar gyfer diwedd y flwyddyn oedd:

Cronfa'r Cyngor:

- Rhagamcan gwariant net yng nghanol y flwyddyn, diffyg gweithredol o £0.109m;
- Roedd y sefyllfa gyffredinol a ragamcenir yn ystod y flwyddyn bellach yn cynnwys £1.422m oherwydd y newid yn y polisi cyfrifyddu ar gyfer Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP) fel y cytunwyd gan y Cyngor Sir 1 Mawrth. Effaith hyn oedd dileu'r diffyg gweithredol a rhagamcanwyd y byddai'r gwariant net £1.531 yn is na'r gyllideb; a
- Balans Cronfa Wrth Gefn At Raid a ragamcanwyd ar 31 Mawrth o £8.353m a leihaodd i £5.948m wrth ystyried y cyfraniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer cyllideb 2018/19.

Cyfrif Refeniw Tai:

- Rhagwelir y bydd gwariant net yn ystod y flwyddyn £0.035m yn uwch na'r gyllideb; a
- Rhagamcanir y bydd balans y gronfa wrth gefn at raid ar 31 Mawrth 2018 yn £1.081m.

Crynowyd y rhesymau dros yr amrywiannau a ragamcanwyd yn yr atodiad i'r adroddiad, gydag amrywiannau portffolio sylweddol allweddol wedi'u hegluro yn yr adroddiad.

Fe wnaeth yr adroddiad gynnwys y rhagamcan diweddaraf ganol blwyddyn fesul portffolio; symudiadau sylweddol yn y gyllideb rhwng Mis 10 a Mis 11; arbedion effeithiolrwydd a drefnwyd ar gyfer ganol y flwyddyn a gyflawnwyd; cynnal a chadw yn y gaeaf; chwyddiant; cronfeydd wrth gefn a balansau a cheisiadau i gario'r cyllid ymlaen.

O ran y Gronfa Wrth Gefn At Raid, eglurodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol, yng nghyfarfod cyllideb y Cyngor 20 Chwefror 2018, fod swm o £0.900m wedi'i gynnwys o fewn y lefel a ragamcanwyd o gronfeydd wrth gefn darbodus ar gyfer arian buddsoddi i arbed, i helpu i gyflawni arbedion effeithlonrwydd. Ar ôl ystyried y dyraniad o £0.550m ar gyfer y prosiect Strategaeth Ddigidol – Cwsmeriaid Digidol, argymhellwyd y byddai'r £0.350m yn cael ei glustnodi at y diben hwnnw hefyd.

Fe wnaeth adroddiad i'r Cabinet 26 Medi 2017 ar Gynnydd Cais Cytundeb Twf Economaidd Gogledd Cymru argymell awdurdod dirprwyedig i awdurdodi cyfraniad refeniw cychwynnol o wariant 2017/18 ar gyfer datblygiad manwl o'r Cais Cytundeb Twf, gydag uchafswm o hyd at £0.050m. Argymhellwyd iddo gael ei ariannu o'r Gronfa Wrth Gefn At Raid.

Fe wnaeth digwyddiad diweddar a arweiniodd at orfod symud sylweddau gwastraff peryglus o eiddo yn Sir y Fflint dynnu sylw at y gofyniad am arian i fodloni unrhyw gamau unioni brys na ragwelwyd, a gofynion cefnogi cysylltiedig. Argymhellwyd cyfraniad o £0.050m o'r Gronfa Wrth Gefn At Raid i'w glustnodi ar gyfer y diben hwnnw.

Rhoddodd y Cynghorydd Thomas sylw ar yr amodau tywydd gwael a oedd yn parhau i roi pwysau ar gyllideb cynnal a chadw dros y gaeaf, fodd bynnag, roedd yn falch ganddi gyhoeddi fod grant diweddar o £125,000 wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru (LIC).

PENDERFYNWYD:

- (a) Nodi'r adroddiad cyffredinol a'r swm wrth gefn a ragamcanwyd ar gyfer Cronfa'r Cyngor ar 31 Mawrth 2018;
- (b) Cymeradwyo'r trosglwyddiad o £0.900m o'r Gronfa Wrth Gefn At Raid ar gyfer prosiectau buddsoddi i arbed, lle'r oedd £0.550m wedi'i ddyrannu i ariannu'r strategaeth ddigidol;
- (c) Cymeradwyo trosglwyddiad o £0.050m o'r Gronfa Wrth Gefn At Raid i ariannu'r cyfraniad tuag at ddatblygiad manwl o'r Cais Twf Economaidd;
- (d) Cymeradwyo trosglwyddiad o £0.050m o'r Gronfa Wrth Gefn At Raid i glustnodi cronfa wrth gefn i fodloni unrhyw gamau unioni brys na ragwelwyd, a chostau cefnogi;
- (e) Dylid nodi'r lefel derfynol o falansau a ragamcanwyd ar y Cyfrif Refeniw Tai; a
- (f) Chymeradwyo'r ceisiadau cario ymlaen sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad 6.

168. MABWYSIADU CYFRADDAU BUSNES 2018/19 CYNLLUN RHYDDHAD ARDRETHI STRYD FAWR

Cyflwynodd y Cyngorydd Mullin yr adroddiad Mabwysiadu Cyfraddau Busnes 2018/19, Cynllun Rhyddhad Ardrethi Stryd Fawr, a amlinellodd gynllun Llywodraeth Cymru (LIC) a oedd wedi'i ddylunio i ddarparu rhyddhad ardrethi dros dro i fanwerthwyr stryd fawr.

Eglurodd y Prif Swyddog (Rhaglenni Strategol) fod cymhwyster y cynllun â chefnogaeth LIC yn seiliedig ar system dwy haen, gan roi rhyddhad o hyd at £750 i fusnesau manwerthu stryd fawr, gyda gwerth ardrethol rhwng £12,001 a £50,000 a oedd wedi gweld cynnydd yn eu hatebolrwydd ardrethi busnes o ganlyniad i ailwerthusiad cenedlaethol 2017. Roedd hefyd yn darparu rhyddhad o hyd at £250 ar gyfer busnesau manwerthu stryd fawr llai, gyda gwerthoedd ardrethol o hyd at £12,000.

Croesawodd yr Aelodau'r cynllun i leihau'r effaith o ailwerthusiad 2017 ar gyfer rhai busnesau.

PENDERFYNWYD:

- (a) Mabwysiadu'r cynllun grant Llywodraeth Cymru 2018/19 ar gyfer Rhyddhad Ardrethi Stryd Fawr yn unol â'r darpariaethau yn adran 46 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988;
- (b) Cymeradwyo'r dyfarniadau awtomatig, heb ffurflenni cais, i'r busnesau hynny sy'n gymwys, y gellir eu nodi'n hawdd drwy gofnodi Ardrethi Busnes; a
- (c) Bod dyfarniadau i unrhyw fusnesau sy'n weddill a all fod yn gymwys yn dilyn ffurflen gais ddilys yn cael eu cymeradwyo.

169. YMARFER PWERAU DIRPRWYEDIG

Cyflwynwyd eitem wybodaeth am y camau gweithredu a gymerwyd o dan bwerau dirprwyedig. Mae'r camau gweithredu wedi eu nodi isod:-

Strydwedd a Chludiant

- **Cyngor Sir y Fflint - Riverside Park a Stoneleigh Close, Garden City. Gwaharddiad Arfaethedig i Aros ar unrhyw Adeg.**
I roi gwybod i Aelodau am y gwrthwynebiad a gafwyd yn dilyn hysbysebu'r cyfyngiadau Dim Aros ar Unrhyw Adeg ar Riverside Park a Stoneleigh Close, Garden City.
- **Cyngor Sir y Fflint – Alexandra Road a Victoria Road, yr Wyddgrug Gorchymyn 201 (Gwaharddiad a Chyfyngiad Aros a Mannau Llwytho a Pharcio) (Gorfodi Sifil a Chyfuno) (diwygiad rhif 13).**
I roi gwybod i Aelodau am y gwaharddiadau a gafwyd yn dilyn hysbysebu Alexandra Road a Victoria Road, yr Wyddgrug Gorchymyn 201 (Gwaharddiad a Chyfyngiad Aros a Mannau Llwytho A Pharcio) (Gorfodi Sifil a Chyfuno) (diwygiad rhif 13).

- **Cyngor Sir y Fflint – Liverpool Road, Alltami Road, Higher Common Road, Bwcle a Church Road, Bwcle Gorchymyn 201 (Gwaharddiad a Chyfyngiad Aros a Mannau Llwytho a Pharcio) (Gorfodi Sifil a Chyfuno) (diwygiad rhif 7).**

I gynghori Aelodau ar y gwrthwynebiadau a ddaeth i law yn dilyn hysbysebu Gorchymyn Gwahardd a Chyfyngiad Aros a Mannau Llwytho a Pharcio arfaethedig diwygiad rhif 7, sy'n cyflwyno cyfyngiadau Dim Aros ar Unrhyw Adeg ar Liverpool Road, Alltami Higher Common a Church Road, Bwcle.

Newid Sefydliadol

- **Trosglwyddo Ased Cymunedol, Grŵp Sgowntiaid Treffynnon**
Trosglwyddo Pencadlys Sgowntiaid Treffynnon yn cynnwys y tir a ddangosir ag ymyl goch yn y cynllun.
- **Tir o flaen Ffordd Llanarth, Cei Connah – Cytundeb Cyfyngol**
Mae'r prynwr arfaethedig yn bwriadu mynd ar y tir drwy Drwydded i gynnal ymchwiliadau safle ymwithiol helaeth ac arolygon isadeiledd dros gyfnod o amser. Cytunwyd i ymrwymo i Gytundeb Cyfyngol gyda'r prynwr arfaethedig y gellir bwrw ati gyda'r gwaith. *(Ystyrir bod yr adroddiad dirprwyedig hwn yn eithriedig yn rhinwedd Paragraff(au) 14, Rhan 4 yn Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd). Mae budd y cyhoedd wrth beidio â datgelu'r wybodaeth yn drech na'r budd o ddatgelu'r wybodaeth, hyd nes y cwblheir y trefniadau masnachol).*

PENDERFYNWYD:

Nodi'r camau a gymerwyd o dan bwerau dirprwyedig.

DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 – YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD:

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol yn rhinwedd gwybodaeth eithriedig dan baragraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

170. GWERTHU TIR DIWYDIANNOL YN WEIGHBRIDGE ROAD, GLANNAU DYFRDWY

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) adroddiad Gwerthu Tir Diwydiannol yn Weighbridge Road, Glannau Dyfrdwy, a roddodd fanylion o'r safle a'r derbyniad cyfalaf a ragwelir o waredu'r safle.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Attridge, eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) na ddylai materion cais cynllunio gael eu trafod gan y Cabinet; byddent yn cael eu trafod maes o law gan y Pwyllgor Cynllunio.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r gwerthiant o oddeutu 15.48 acer o dir a ddangosir gydag ymyl a llinellau du ar y cynllun.

171. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol a dim ond un aelod o'r wasg oedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 9.30am a daeth i ben am 10.45am)

.....
Y Cadeirydd